# Adroddiad ar brosiectau peilot addysg drochi Cymraeg a dysgu iaith trwy ddulliau dwys mewn ysgolion

## Chwefor 2006

Estyn
Rhagoriaeth i bawb......Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2006: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


**1 Cyflwyniad** **1**

**2 Cefndir** **2**

2.1 Addysg drochi 3

**3 Prif ganfyddiadau** **5**

3.1 Cyflawniad disgyblion 5
3.2 Ansawdd yr addysgu 5
3.3 Cynllunio’r prosiectau peilot 6
3.4 Hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon a phenaethiaid 6
3.5 Trochi Cymraeg ac addysgu’r Gymraeg yn ddwys 6
3.6 Gweithgareddau allgyrsiol 7
3.7 Gallu ieithyddol staff 7
3.8 Cymorth awdurdodau addysg lleol 7
3.9 Adnoddau 8
3.10 Agweddau disgyblion 8
3.11 Presenoldeb disgyblion 8
3.12 Parhad a dilyniant mewn ysgolion uwchradd 8

**4 Argymhellion** **9**

**5 Cynllunio’r prosiectau peilot** **11**

5.1 Rôl tîm y prosiect 11
5.2 Hyfforddiant mewn swydd 11
5.3 Rhannu arfer dda 12
5.4 Hyrwyddo’r prosiectau peilot 12

**6 Monitro cynnydd disgyblion** **13**

6.1 Ysgolion Model 1 13
6.2 Ysgolion Model 2 13
6.3 Ysgolion Model 3 14
6.4 Ysgolion Model 4 15
6.5 Ysgolion Model 5 15

**7 Materion sy’n ymddangos** **16**

7.1 Modelau Trochi Cymraeg 16
7.2 Gweithgareddau allgyrsiol 16
7.3 Gallu ieithyddol staff 17
7.4 Cymorth AALlau 17
7.5 Adnoddau 18
7.6 Agweddau disgyblion 18
7.7 Presenoldeb disgyblion 18
7.8 Parhad a dilyniant mewn ysgolion uwchradd 19

**8 Sylwadau i gloi** **20**

## 1 Cyflwyniad

1 Mae arolwg o brosiectau peilot addysg drochi Cymraeg a dysgu iaith trwy ddulliau dwys yn cael ei gynnal fel rhan o gylch gwaith blynyddol Estyn ar gyfer 2004-2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hwn yn adroddiad ar yr arolwg o'r prosiectau, lle caiff disgyblion eu trochi yn yr iaith Gymraeg ar gyfnod hwyr yn ystod eu haddysg ysgol gynradd.

2 Diffinnir addysg drochi fel cyflwyno'r cwricwlwm mewn ail iaith i ddysgwyr sy'n rhannu'r un iaith gyntaf. Mae yna draddodiad hir a llwyddiannus o addysgu disgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg trwy gyfrwng y Gymraeg o ysgolion meithrin hyd at ddiwedd eu cyfnodau yn yr ysgol mewn llawer o rannau o Gymru. Mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae cyflwyno addysg drochi yn ystod cyfnod allweddol 2 yn ymagwedd wahanol ac mae'r adroddiad hwn yn arfarnu agweddau ar arfer dda mewn addysgu a dysgu yn yr ymagweddau a gymerir yn y prosiectau peilot. Mae'n disgrifio ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar safonau ac mae'n nodi argymhellion ar gyfer mwy o welliannau.

3 Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar:

- gyfres o ymweliadau gan AEM â'r ysgolion cynradd ac uwchradd a gymerodd ran yn ystod 2004 a 2005;
- trafodaethau â disgyblion, athrawon, penaethiaid ac arweinwyr prosiect; a
- monitro cynnydd disgyblion mewn cyfres o asesiadau llafar, darllen ac ysgrifennu.

## 2 Cefndir

4 Nododd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog, sef Iaith Pawb, bryder Llywodraeth Cynulliad Cymru mai nifer cymharol brin o fannau mynediad i addysg Gymraeg oedd ar ôl tair neu bump oed. I fynd i'r afael â'r broblem hon, sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad brosiectau peilot a fyddai'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ar ddiwedd eu cyfnod mewn ysgolion cynradd i astudio Cymraeg yn fwy dwys am gyfnod penodedig. Mae'r prosiectau peilot hyn yn anelu at alluogi llawer mwy o ddisgyblion i symud i'r sector Cymraeg neu i astudio mwy o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliadau eraill nag a fyddai wedi digwydd fel arall.

5 Ym mis Medi 2001, aeth Jane Davidson AC, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, a dirprwyaeth o Lywodraeth Cynulliad Cymru ar daith darganfod ffeithiau i Newfoundland a Labrador a New Brunswick yng Nghanada. Nod yr ymweliad oedd arsylwi'n uniongyrchol y modelau amrywiol o addysg drochi a ddefnyddir yn y taleithiau hyn ac archwilio'r cwmpas ar gyfer gweithredu neu addasu un neu fwy o'r modelau hyn ar gyfer Cymru i ehangu addysgu Cymraeg fel ail iaith.

6 Yn yr adroddiad ar yr ymweliad[1] credai'r ddirprwyaeth mai'r adeg fwyaf priodol i weithredu cynllun peilot fyddai gyda disgyblion Cymraeg ail iaith ym Mlwyddyn 6 – sef blwyddyn olaf yr ysgol gynradd – gyda'r bwriad o alluogi'r disgyblion hynny i gyflawni ystod o ganlyniadau gan gynnwys:

- trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg;
- astudio mwy o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliad ysgol uwchradd ddwyieithog neu gyfrwng Saesneg yn bennaf nag a fyddai wedi digwydd fel arall; neu
- gyflawni sylfaen ddigon cryf o hyfedredd ieithyddol i allu cymryd rhan mewn ystod llawer ehangach o weithgareddau iaith Gymraeg addysgol a chymdeithasol yn yr ysgol, a'r tu allan i'r ysgol.

7 Ar wahoddiad y Gweinidog, galwyd grŵp o arbenigwyr ynghyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yng ngwanwyn 2002 i baratoi ar gyfer datblygu pwyntiau mynediad amgen i addysg cyfrwng Cymraeg a phrosiectau peilot ar addysgu iaith yn ddwys i'w cyflwyno yn ystod tymor yr haf 2004.

8 Yn dilyn ymgynghoriadau hir ag ysgolion, awdurdodau lleol, rhieni a disgyblion, dewiswyd tri chlwstwr o ysgolion i gymryd rhan ym mhrosiectau peilot 2004. Roedd y tri chlwstwr o wirfoddolwyr yn cynrychioli ardaloedd gwahanol iawn o Gymru: roedd dau glwstwr yng ngogledd ddwyrain Cymru, un clwstwr yn Sir y Fflint, (Model 1), un clwstwr yn Sir Ddinbych (Model 2); ac roedd un clwstwr yn ne-ddwyrain Cymru o Rhondda Cynon Taf (Model 3). Diffinnir y modelau hyn yn fanwl yn Adran 2.1.

---

[1] Addysg Drochi ac Addysgu Iaith yn Ddwys – Adroddiad ar ymweliad â Newfoundland a Labrador a New Brunswick gan Jane Davidson AC, Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes 16-21, Medi 2001.

9 Sefydlwyd prosiect peilot ychwanegol ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 3 mewn ysgol gynradd yn AALl Conwy o fis Medi 2004, a barhaodd mewn blynyddoedd ysgol dilynol (Model 4). Ymunodd ysgol gynradd yng Ngheredigion â'r peilot hefyd yn ystod haf 2005, gan gyflwyno Cymraeg mewn dau ddosbarth ym Mlwyddyn 5 (Model 5).

10 Ymunodd dau glwstwr ychwanegol o ysgolion â'r ysgolion peilot gwreiddiol yn 2005, un yn Sir Ddinbych (Model 1) ac un yn Ynys Môn (Model 1).

## 2.1 Addysg drochi

11 Seiliwyd cynllun y prosiectau trochi Cymraeg ar ganfyddiadau Swain a Johnson (1997)[2] a Cummins (1979)[3] ar addysg drochi.

12 Nododd Swain a Johnson (1997) newidynnau craidd a chyfrannol sy'n nodweddu natur rhaglenni trochi. Mae'r wyth nodwedd graidd ganlynol yn ei gwahaniaethu oddi wrth fathau eraill o raglenni ail iaith:

- yr ail iaith yw cyfrwng y cyfarwyddyd;
- mae'r cwricwlwm trochi yn gyfochrog â'r cwricwlwm iaith gyntaf lleol;
- ceir cefnogaeth amlwg ar gyfer yr iaith gyntaf;
- mae'r rhaglen yn anelu at ddwyieithrwydd ychwanegol[4];
- mae amlygiad i'r ail iaith wedi'i gyfyngu i'r ystafell ddosbarth i raddau helaeth;
- mae myfyrwyr yn dechrau gyda lefelau tebyg (a chyfyngedig) o hyfedredd ail iaith;
- mae'r athrawon yn ddwyieithog; ac
- mae diwylliant yr ystafell ddosbarth yr un fath â diwylliant y gymuned iaith gyntaf leol.

13 Maent yn nodi bod pob un o'r nodweddion hyn yn cael eu gweld fel nodweddion sy'n bodoli ar gontinwwm a bod yn rhaid i bob un ohonynt fod yn bresennol i ryw raddau er mwyn i raglen gael ei hystyried yn rhaglen drochi.

14 Mae Cummins (1979) yn gwahaniaethu rhwng medrau cyfathrebol rhyngbersonol a hyfedredd iaith gwybyddol academaidd. Mae'r gwahaniaethu hwn yn tynnu sylw at y cyfnodau gwahanol iawn sydd eu hangen yn nodweddiadol ar blant sy'n fewnfudwyr i

[2] Johnson R.K. a Swain M. (eds.) (1997) Immersion Education: International perspectives. New York: Gwasg Prifysgol Caergrawnt

[3] Cummins, J. (1979) Cognitive/academic language proficiency, linguistic interdependence, the optimum age question and some other matters. Working Papers on Bilingualism, No. 19, 121-129.

[4] dwyieithrwydd ychwanegol: Pan na fydd dysgu ail iaith yn amharu ar ddysgu'r iaith gyntaf. Datblygir y ddwy iaith.

gaffael rhuglder sgyrsiol yn eu hail iaith o'i gymharu â hyfedredd academaidd sy'n briodol i radd yn yr iaith honno. Caiff rhuglder sgyrsiol ei gaffael yn aml i lefel swyddogaethol ymhen rhyw ddwy flynedd o ddod i gyffyrddiad â'r ail iaith am y tro cyntaf, tra bo angen o leiaf rhwng pump a saith mlynedd i ddal i fyny â siaradwyr brodorol mewn agweddau academaidd ar yr ail iaith.

15 Roedd prosiectau peilot addysg drochi 2004-2005 a 2005-2006 yn cynnig cyfle i ddisgyblion a oedd gynt wedi cael eu haddysg yn Saesneg gyda Chymraeg fel ail iaith i gael naill ai cwrs trochi Cymraeg neu gwrs addysgu Cymraeg yn ddwys[5] ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. Gallai disgyblion a oedd yn mynychu cyrsiau trochi Cymraeg wedyn barhau â'u haddysg yn Gymraeg mewn ysgol uwchradd. Roedd disgyblion a oedd yn mynychu cyrsiau Cymraeg dwys yn dilyn cwrs Cymraeg fel ail iaith mewn ysgol uwchradd. Ceir disgrifiad o'r pum model gwahanol o ddarpariaeth sy'n cael eu rhoi ar brawf ar hyn o bryd isod.

**Tabl 1: Trochi a modelau iaith dwys**

| Model | Lleoliad | Nifer y disgyblion | Grŵp blwyddyn | Dyddiad dechrau | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Model 1 | Sir y Fflint: un ysgol uwchradd Gymraeg | 18 | Blwyddyn 6 | Haf 2004 | 5 wythnos ac yn parhau ym Mlwyddyn 7 |
| Model 2 | Sir Ddinbych: un ysgol uwchradd chwe ysgol gynradd | 60 | Blwyddyn 6 | Haf 2004 | 5-6 wythnos ac yn parhau ym Mlwyddyn 7 |
| Model 3 | Rhondda Cynon Taf: un ysgol uwchradd Saesneg | 40 | Blwyddyn 6 | Haf 2004 | 5 wythnos ac yn parhau ym Mlwyddyn 7 |
| Model 4 | Conwy: un ysgol gynradd | 10 | Blwyddyn 3 | Medi 2004 | Parhau |
| Model 1 | Sir y Fflint: un ysgol uwchradd Gymraeg | 23 | Blwyddyn 6 | Haf 2005 | 5 wythnos ac yn parhau ym Mlwyddyn 7 |
| Model 1 | Sir Ddinbych: un ysgol uwchradd Gymraeg | 18 | Blwyddyn 6 | Haf 2005 | 5 wythnos ac yn parhau ym Mlwyddyn 7 |
| Model 1 | Ynys Môn: un ysgol uwchradd Gymraeg | 18 | Blwyddyn 6 | Haf 2005 | 5 wythnos ac yn parhau ym Mlwyddyn 7 |
| Model 2 | Sir Ddinbych: un ysgol uwchradd chwe ysgol gynradd | 60 | Blwyddyn 6 | Haf 2005 | 5-6 wythnos ac yn parhau ym Mlwyddyn 7 |
| Model 3 | Rhondda Cynon Taf: un ysgol uwchradd Saesneg | 30 | Blwyddyn 6 | Haf 2005 | 5 wythnos ac yn parhau ym Mlwyddyn 7 |
| Model 3 | Wrecsam: un ysgol uwchradd Saesneg | 42 | Blwyddyn 6 | Haf 2005 | 5 wythnos ac yn parhau ym Mlwyddyn 7 |
| Model 4 | Conwy: un ysgol gynradd | 14 | Blwyddyn 3 | Medi 2005 | Parhau |
| Model 5 | Ceredigion: un ysgol gynradd | 41 | Blwyddyn 5 | Haf 2005 | 6 wythnos ac yn parhau ym Mlwyddyn 6 |

[5] Mae trochi Cymraeg yn golygu bod tua 90% o'r cwricwlwm yn cael ei addysgu yn Gymraeg, tra bo cyrsiau Cymraeg dwys yn gyffredinol yn addysgu rhai pynciau yn unig yn Gymraeg.

# 3 Prif ganfyddiadau

16 Mae'r prif ganfyddiadau hyn yn cyfeirio at brosiectau peilot addysg drochi Cymraeg yn 2004-2005 a 2005-2006.

## 3.1 Cyflawniad disgyblion

17 Mae mwyafrif llethol y disgyblion ar bob un o'r prosiectau peilot addysg drochi hyn wedi elwa'n sylweddol o ran eu medrau iaith a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn llawer mwy hyderus yn siarad Cymraeg erbyn diwedd cyrsiau tymor yr haf yn 2004 a 2005. Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau eu gwersi ac roeddent yn frwdfrydig ynghylch dysgu'r iaith. Roedd y cynnydd a wnaed gan y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 o fan cychwyn isel. Ychydig iawn o ddisgyblion a ddechreuodd y prosiect oedd ar y lefel 4 ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Cymraeg fel ail iaith. Erbyn diwedd prosiectau peilot haf 2004, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion ar y lefel hon.

18 Yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect, ar ôl trosglwyddo i'r ysgol uwchradd, gwnaeth disgyblion ym Mlwyddyn 7 gynnydd ar lefelau amrywiol, yn dibynnu ar y model addysgu a ddefnyddiwyd yn yr ysgol uwchradd. Ym Model 1, parhaodd disgyblion i wneud cynnydd da. Ym Model 2, yn gyffredinol, gwnaeth disgyblion gynnydd arafach, oherwydd diffyg her. Gwnaeth disgyblion mewn un dosbarth llwybr carlam gynnydd da ym Model 3 hefyd, ond gwnaeth disgyblion eraill yn yr un ysgol gynnydd digonol yn unig, oherwydd diffyg disgwyliadau a her gan athrawon. Parhaodd disgyblion ym Model 4 i wneud cynnydd digonol.

19 Dechreuodd disgyblion prosiectau peilot haf 2005 o fan cychwyn ychydig yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol, er na wnaethant gyflawni'r lefel 4 ddisgwyliedig cyn dechrau'r peilot. Gwnaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da. Erbyn diwedd prosiectau peilot haf 2005, roedd llawer o ddisgyblion yn gweithio ar lefel 4. Roedd y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 ar brosiect peilot 2005 hefyd yn amrywio'n sylweddol yn ôl y model trochi a ddefnyddiwyd yn yr ysgol uwchradd. Parhaodd y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn ysgolion model trochi i wneud cynnydd da. Gwnaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion a oedd yn dilyn y rhaglen Cymraeg ail iaith gynnydd digonol, ac mewn rhai dosbarthiadau, gwnaethant gynnydd da a chynnydd rhagorol ambell waith.

## 3.2 Ansawdd yr addysgu

20 Mae yna enghreifftiau o addysgu digonol, da a rhagorol mewn dosbarthiadau Blwyddyn 6 ar lawer o brosiectau peilot haf 2004 a 2005. Roedd ansawdd yr addysgu ar bob un o'r prosiectau peilot yn gyffredinol dda ac roedd weithiau'n rhagorol. Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'u gwersi'n dda ac yn cynnig amrywiaeth dda o brofiadau dysgu i'w disgyblion. Roedd athrawon yn cymell ac yn herio'u disgyblion yn dda. Lle'r oedd yr addysgu'n dda neu'n dda iawn, roedd athrawon yn integreiddio medrau llefaredd, darllen ac ysgrifennu yn dda yn y gwersi. Roeddent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau heriol a oedd yn darparu ar gyfer

ystod gallu llawn y disgyblion. Roeddent yn defnyddio Cymraeg yn effeithiol fel modd o gyfathrebu yn y wers. Roedd athrawon yn adolygu gwaith blaenorol yn ofalus cyn cyflwyno gwaith newydd. Roeddent yn cyflwyno geirfa newydd yn dda ac yn defnyddio gwaith dosbarth cyfan, gwaith grŵp, gwaith pâr a gweithgareddau dysgu unigol yn y gwersi. Roedd cyflymder ac amseru da iawn i weithgareddau yn y gwersi. Roedd athrawon hefyd yn gosod ac yn marcio gwaith cartref diddorol â ffocws da i atgyfnerthu a datblygu'r hyn a ddysgwyd yn y gwersi. Yn y dosbarthiadau gwannach, mewn ysgolion cynradd Model 2 yn bennaf, nid oedd rhai athrawon yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu geirfa ac nid oeddent yn cynnig digon o amrywiaeth na her i ddisgyblion ymestyn eu medrau iaith.

21 Ar adeg trosglwyddo i'r ysgol uwchradd, roedd ansawdd yr addysgu mewn dosbarthiadau Blwyddyn 7 yn amrywio rhwng da gyda rhai nodweddion rhagorol i fod prin yn ddigonol. Lle'r oedd yr addysgu yn rhagorol, cynigiwyd amrywiaeth o weithgareddau heriol a phleserus i ddisgyblion; roedd cyflymder yr addysgu yn ymestynnol; ac roedd gan athrawon ddisgwyliadau uchel. Yn y dosbarthiadau gwannach, nid oedd athrawon yn cynnig digon o her i ddisgyblion; roedd diffyg amrywiaeth yn y gwaith ac roedd yn amhriodol i anghenion neu alluoedd y disgyblion. Yn y dosbarthiadau gwannach, nid oedd athrawon yn ymestyn medrau iaith disgyblion digon.

## 3.3 Cynllunio'r prosiectau peilot

22 Cynigiodd cyfarwyddwr y prosiect, cyfarwyddwr cynorthwyol y prosiect a'r ymgynghorydd arbenigol arweiniad clir ar gynllunio'r prosiectau peilot yn 2004 a 2005. Fe wnaethant drefnu cyrsiau hyfforddiant yn dda, a chryfhawyd eu rôl wrth fonitro ac arfarnu yn ystod prosiect peilot 2005 i ganolbwyntio ar gynnydd disgyblion unigol. Fodd bynnag, mae angen i reolwyr prosiect rannu eu canfyddiadau a lledaenu arfer dda ag athrawon mewn ysgolion peilot cyn gynted ag y gallant. Byddai hyn yn galluogi athrawon i gynllunio cyrsiau yn well yn y dyfodol ac i leihau dyblygu ymdrech rhwng ysgolion.

## 3.4 Hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon a phenaethiaid

23 Darparwyd hyfforddiant mewn swydd ar gyfer penaethiaid ac athrawon cynradd, ac athrawon uwchradd i safon uchel gan dîm y prosiect. Cyflwynodd yr hyfforddiant arbenigol hwn gysyniadau a methodoleg addysg drochi. Cynigiodd y tîm hefyd ychydig o sesiynau hyfforddiant ychwanegol i athrawon i baratoi adnoddau a deunyddiau cymorth ychwanegol ar gyfer y prosiectau peilot. Fodd bynnag, nid oedd digon o amser paratoi i alluogi athrawon i deilwra a gwahaniaethu deunyddiau.

## 3.5 Trochi Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg yn ddwys

24 Roedd gan bob model wahanol gryfderau ac roedd pob model yn cynnig gwerth da am arian. Yn gyffredinol, disgyblion mewn ysgolion Model 1 wnaeth y cynnydd gorau o ran dysgu Cymraeg. Cawsant y rhaglen drochi lawn yn eu hysgol uwchradd Gymraeg, a chawsant fwy o gyswllt â'r iaith na disgyblion mewn modelau eraill. Mae tair o ysgolion Model 1 bellach wedi gweithredu'r nod o addysgu 90% o'r cwricwlwm yn Gymraeg yn llwyddiannus.

25 Roedd yr ysgol Model 4 yn cynnig rhaglen drochi 50% i ddisgyblion Blwyddyn 3 ym mis Medi 2004. Erbyn mis Medi 2005, roedd y rhaglen hon yn cynnig rhaglen drochi 90% i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4.

26 Roedd yr ysgol Model 5 hefyd yn cynnig cwricwlwm trochi llawn yn ystod prosiect peilot yr haf i ddisgyblion blwyddyn 5. Mae'r ysgol nawr yn cynnig tua 20% o'r cwricwlwm yn Gymraeg i'w disgyblion Blwyddyn 6.

27 Roedd y rhan fwyaf o ysgolion Model 2 a 3 yn cynnig addysgu'r iaith Gymraeg yn ddwys am o leiaf 50% o amser y cwricwlwm yn ystod prosiectau peilot yr haf yn 2004 a 2005.

28 Wrth drosglwyddo i ysgolion uwchradd ym mis Medi 2004 a 2005, roedd ysgolion Model 2 a 3 yn cynnig yr amser addysgu arferol ar gyfer Cymraeg fel ail iaith ym Mlwyddyn 7 yn unig. Oherwydd anawsterau staffio, nid oedd y modelau hyn yn gallu cynnig unrhyw bynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn golygu na all ysgolion Modelau 2 a 3 gyflawni gweledigaeth a dyhead Iaith Pawb ar hyn o bryd. Nid yw Modelau 2 a 3 felly yn cynnig y gwerth am arian a gynigir gan Fodelau 1, 4 a 5 a chynigir y gwerth gorau am arian gan Fodel 1, lle cynhelir parhad a dilyniant.

## 3.6 Gweithgareddau allgyrsiol

29 Mae gweithgareddau allgyrsiol yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion ymarfer ac atgyfnerthu eu medrau iaith Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Trefnodd tîm y prosiect gyfres tridiau o weithgareddau allgyrsiol ar gyfer disgyblion yn ystod mis Gorffennaf 2004. Trefnwyd y gweithgareddau hyn gyda chymorth yr Urdd, Mentrau Iaith a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd Ysgol. Fodd bynnag, oherwydd i'r gweithgareddau hyn gael eu trefnu'n hwyr ac ymrwymiadau gwyliau eraill, nid oedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu mynychu'r gweithgareddau hyn, a chollwyd yr adnodd gwerthfawr hwn. Ni chynigiodd tîm y proseict weithgareddau allgyrsiol tebyg yn ystod gwyliau haf 2005.

## 3.7 Gallu ieithyddol staff

30 Rhoddodd athrawon Cymraeg arbenigol ac athrawon o wasanaethau cynghori Cymraeg awdurdodau addysg lleol (AALlau) gymorth i staff mewn addysgu ar y ddau brosiect peilot yn yr ysgolion Modelau 1, 2 a 4. Addysgodd athrawon dosbarth cynradd eu disgyblion eu hunain yn yr ysgol Model 5. Roedd sawl athro yn un o ysgolion Model 3 yn ddysgwyr Cymraeg ac er bod eu medrau wedi gwella yn ystod y peilot, nid oeddent yn gallu ymestyn medrau llafar disgyblion. Wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd, addysgwyd Cymraeg i bob un o'r disgyblion gan athrawon Cymraeg uwchradd arbenigol. Fodd bynnag, nid yw pob athro uwchradd yn gymwys i gyflwyno cwricwlwm Cymraeg ac oni bai bod y model trochi yn parhau i'r sector uwchradd, gellir colli'r cynnydd a wneir trwy drochi hwyr.

## 3.8 Cymorth awdurdodau addysg lleol

31 Cynigiwyd cymorth da i'r prosiectau peilot gan awdurdodau addysg lleol yn 2004 a 2005. Fe wnaethant ddarparu staff ychwanegol, costau cludiant a chymorth gan y

gwasanaethau cynghori Cymraeg lleol i'r ysgolion peilot. Talodd un AALl i ysgol Model 3 anfon disgyblion ar gwrs preswyl tridiau yng Nglan-llyn.

## 3.9 Adnoddau

32 Prin yw'r adnoddau 'trochi Cymraeg hwyr' sydd ar gael. Comisiynodd tîm y prosiect gyrsiau Cymraeg yn lleol ar gyfer prosiectau peilot 2004 yng Ngogledd Cymru. Mwynhaodd athrawon a disgyblion ddefnyddio'r llyfrynnau cwrs newydd hyn. Yn Ne Cymru, ysgrifennodd y tîm cynghori gwrs newydd ar gyfer yr ysgol Model 3. Comisiynodd tîm y prosiect adnoddau addysgu ychwanegol ar gyfer prosiect peilot 2005 yng Ngogledd Cymru hefyd. Fodd bynnag, mae prinder deunydd darllen addas yn parhau i'w gwneud yn anodd i athrawon ddod o hyd i ddeunyddiau ffeithiol addas i'w darllen.

## 3.10 Agweddau disgyblion

33 Roedd gan bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at brosiectau peilot 2004 a 2005. Mwynhaodd y disgyblion ddysgu Cymraeg ar y ddau gwrs haf dwys ac fe wnaethant ddatblygu mwy o hyder wrth siarad Cymraeg ag eraill. Dyfeisiodd un ysgol uwchradd holiadur ffurfiol i fonitro agweddau disgyblion tuag at y peilot. Rhoddodd yr holiadur hwn gipolwg gwerthfawr i'r ysgol ar yr hyn sy'n gweithio orau o safbwynt y disgyblion.

## 3.11 Presenoldeb disgyblion

34 Yn gyffredinol, roedd cyfraddau presenoldeb disgyblion yn dda iawn ac roeddent yn awyddus i gymryd rhan ym mhob agwedd ar brosiectau peilot 2004 a 2005. Aeth bron pob un o'r disgyblion a fynychodd y cyrsiau peilot haf i'r ysgolion uwchradd peilot.

## 3.12 Parhad a dilyniant mewn ysgolion uwchradd

35 Nid yw pob partner yn deall yr angen i gynllunio a sicrhau parhad a dilyniant rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd. Prin iawn yw'r ysgolion uwchradd sydd â chynlluniau tymor hir ar waith i fanteisio ar ddysgu blaenorol disgyblion. Mae'r methiant i gyflwyno addysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar draws y cwricwlwm uwchradd yn rhwystro disgyblion rhag gwneud cynnydd dilynol.

# 4 Argymhellion

A1 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- barhau i gefnogi prosiectau peilot trochi ac addysgu Cymraeg yn ddwys ar lefelau cynradd ac uwchradd lle mae cyfleoedd ar gyfer parhad;
- cefnogi'r modelau sy'n cynhyrchu'r canlyniadau gorau;
- ystyried ffyrdd y gallai'r gwersi a ddysgwyd gan y prosiect trochi peilot ac addysgu'r Gymraeg yn ddwys gynorthwyo ysgolion eraill i gyflwyno neu ehangu elfen ar addysgu pwnc yn Gymraeg; ac
- ystyried sefydlu cyfleuster ar wefan y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru i alluogi athrawon ac ysgolion peilot i rannu adnoddau.

A2 Dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg, awdurdodau addysg lleol ac ysgolion uwchradd:

- ystyried cynnig ystod o weithgareddau allgyrsiol fel rhan o bob prosiect peilot yn ystod gwyliau'r haf i sicrhau bod medrau ieithyddol disgyblion yn parhau i gael eu datblygu.

A3 Dylai arweinwyr prosiectau:

- barhau i gysylltu'n agos â chlystyrau o ysgolion cynradd ac uwchradd ar ddechrau pob prosiect i sicrhau bod pob parti'n cymryd rhan yn llawn mewn cynllunio ar gyfer dilyniant a chyflawniad;
- monitro datblygiadau ym mhob prosiect yn agos a lledaenu arfer dda;
- cynnig sesiynau dadfriffio ychwanegol ar ddiwedd prosiectau peilot yr haf i alluogi pob athro i rannu eu profiadau a'u hadnoddau yn ogystal â myfyrio ynghylch y nodweddion da a'r meysydd i'w gwella ar gyfer prosiectau peilot yn y dyfodol;
- codi ymwybyddiaeth rhieni a disgyblion am botensial trosglwyddo rhwng addysg Gymraeg a Saesneg mewn ardaloedd wedi'u targedu;
- codi ymwybyddiaeth pob ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghymru am botensial sefydlu dosbarth ar gyfer disgyblion sy'n dymuno trosglwyddo o addysg Saesneg i addysg Gymraeg ym Mlwyddyn 7; ac
- adolygu'r arfer o ddefnyddio athrawon nad ydynt yn gwbl rhugl yn Gymraeg, ar gyrsiau yn y dyfodol.

A4 Dylai ysgolion uwchradd:

- gynllunio am barhad gwell mewn ysgolion uwchradd Saesneg trwy gynnig mwy o gyfleoedd i astudio pynciau yn Gymraeg; a

- gosod targedau unigol i bob disgybl yn y prosiect a monitro'u cynnydd yn eu herbyn yn rheolaidd.

A5 Dylai pob ysgol gynradd:

- sicrhau bod disgyblion yn cyflawni lefel 4 mewn Cymraeg fel ail iaith erbyn diwedd Blwyddyn 6.

A6 Dylai athrawon:

- ddatblygu eu cynllunio tymor hir a thymor byr i herio ac ymestyn disgyblion yn briodol; a

- chael mwy o amser i gynllunio a pharatoi adnoddau o ansawdd uchel.

# 5 Cynllunio'r prosiectau peilot

## 5.1 Rôl tîm y prosiect

36 Roedd y tîm prosiect yn cynnwys un cyfarwyddwr prosiect (rhan-amser) a dau swyddog prosiect (un yn rhan amser) ac ymgynghorydd arbenigol. Fe wnaethant gynnal nifer o gyfarfodydd â chyfarwyddwyr addysg, swyddogion addysg, penaethiaid cynradd ac uwchradd, rhieni a disgyblion i esbonio nodau'r prosiectau addysg drochi Cymraeg a'u gwahodd i ddod yn rhan o'r prosiect yn 2004. Ar ôl trafodaethau manwl â phob parti a oedd yn gysylltiedig, dewiswyd tri chlwstwr o ysgolion i gymryd rhan yn y prosiectau peilot o ardaloedd gwahanol iawn o Gymru yn 2004. Dewiswyd dwy ysgol o ogledd ddwyrain Cymru, un ysgol o Sir y Fflint, un ysgol o Sir Ddinbych ac un ysgol o Rhondda Cynon Taf. Ymunodd ysgol gynradd yng Nghonwy â'r cynllun peilot hefyd ym mis Medi 2004. Yn 2005, ymunodd pedair ysgol arall â'r cynllun peilot o Geredigion, Sir Ddinbych, Sir y Fflint ac Ynys Môn.

37 Cynigiodd tîm y prosiect arweiniad clir ar ddyluniad ac adeiladwaith y prosiectau peilot yn ystod sesiynau hyfforddiant. Croesawyd yr arweiniad hwn gan athrawon. Fodd bynnag, nid oedd ysgolion newydd a oedd yn dechrau ar y prosiectau am y tro cyntaf bob amser yn elwa ar brofiad ysgolion eraill yn y blynyddoedd blaenorol wrth gynllunio a dylunio'u prosiectau eu hunain.

38 Rôl ymgynghorol yn unig oedd i dîm y prosiect, ac ni allai'r tîm ddylanwadu ar benderfyniadau polisi a staffio ar lefel ysgol ac awdurdod. Roedd hyn yn cyfyngu ar ddatblygiad rhai prosiectau mewn rhai ysgolion ac roedd yn rhwystro cynnydd y disgyblion hynny, yn arbennig mewn ysgolion uwchradd lle gellid cynnig ychydig iawn yn unig o'r cwricwlwm yn Gymraeg.

39 Cafodd cynnydd disgyblion unigol ei fonitro gan swyddogion prosiect ym mhob ysgol yn fanwl yn ystod prosiect peilot haf 2005. Roedd hyn yn cynnig sylfaen gadarn i olrhain pellter cynnydd dysgwyr ar y peilot. Fodd bynnag, roedd yr amser a gymerodd y monitro manwl hwn yn cyfyngu ar faint o gymorth ac arweiniad y gallai'r tîm ei gynnig i ysgolion newydd ac athrawon newydd yn ystod prosiectau peilot yr haf.

## 5.2 Hyfforddiant mewn swydd

40 Roedd y rhaglen hyfforddiant mewn swydd yn cynnwys trafodaeth am gefndir y prosiect, y theori a thechnegau addysg drochi yn ogystal ag arweiniad ar sut i gynllunio gwersi.

41 Cafodd penaethiaid cynradd, athrawon cynradd ac athrawon uwchradd ar y prosiectau peilot hyfforddiant mewn swydd o ansawdd uchel gan dîm y prosiect. Roedd athrawon a fynychodd y rhaglen hyfforddiant hon yn canmol cynnwys y cwrs a'r arweiniad a gynigiwyd.

42 Roedd y prosiect hefyd yn cynnig ambell sesiwn hyfforddiant ychwanegol. Fe wnaethant gynllunio a pharatoi adnoddau a deunyddiau cymorth ychwanegol ar gyfer

y prosiectau peilot. Fodd bynnag, roedd amser yn rhy fyr i gynhyrchu adnoddau a oedd yn ddigon da.

## 5.3 Rhannu arfer dda

43 Yn 2004, rhannodd tîm y prosiect rywfaint o arfer dda ag athrawon ar brosiectau peilot yr haf. Fodd bynnag, ar brosiect peilot haf 2005, cyfle cyfyngedig yn unig oedd iddynt rannu arfer dda oherwydd yr ymarfer monitro sylweddol a oedd yn digwydd ym mhob ysgol. Gan fod yr arweinwyr prosiect yn cymryd rhan mewn monitro, nid oeddent yn gallu cynnig y lefel flaenorol o gymorth i ledaenu arfer dda.

44 Rhannodd rhai athrawon mewn ysgolion Model 1 yn 2005 eu dirnadaeth a'u profiadau ag ysgolion eraill mewn digwyddiadau hyfforddiant mewn swydd ffurfiol ac anffurfiol. Roedd y digwyddiadau hyfforddiant hyn yn cynnig cyfle i athrawon newydd ddysgu o brofiad athrawon a oedd wedi addysgu ar brosiectau peilot blaenorol. Fe wnaethant rannu eu hadnoddau addysgu yn anffurfiol hefyd.

45 Ni wnaed digon ar lefel genedlaethol i annog athrawon i rannu'r cynllunio a'r adnoddau ar gyfer addysg drochi. Byddai sefydlu gwefan addysgu a dysgu addysg drochi, o bosibl fel rhan o wefan y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu, wedi caniatáu i bob un o'r ysgolion peilot rannu adnoddau ac osgoi dyblygu'r ymdrech a oedd yn gysylltiedig pan oedd pawb yn cynhyrchu ystod o adnoddau yn Gymraeg.

46 Mae defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn ffordd dda o feithrin cysylltiadau agosach rhwng disgyblion, yn ogystal ag athrawon, ar y gwahanol fathau o fodelau ysgol ledled Cymru.

## 5.4 Hyrwyddo'r prosiectau peilot

47 Treuliodd arweinwyr prosiectau gryn dipyn o amser yn hyrwyddo prosiectau peilot ar lefel AALl ac ysgol. Roedd yr hyrwyddo gweithredol hwn o gymorth wrth sefydlu prosiectau mewn amrywiaeth o ysgolion yng Ngogledd a De Cymru.

48 Mae llawer ar ôl i'w wneud i godi ymwybyddiaeth ysgolion, rhieni a disgyblion am botensial trosglwyddo rhwng addysg Gymraeg a Saesneg mewn llawer o ardaloedd wedi'u targedu.

49 Mae angen i arweinwyr prosiectau hefyd godi ymwybyddiaeth pob ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghymru am y potensial i sefydlu dosbarth ar gyfer disgyblion i drosglwyddo o ysgolion cynradd Saesneg i addysg Gymraeg ym Mlwyddyn 7.

# 6 Monitro cynnydd disgyblion

50 Cynhaliodd arolygwyr gyfres o ymweliadau â phob un o'r ysgolion yn y tri phrosiect trochi peilot yn ystod tymor yr haf a'r hydref yn 2004 a 2005. Yn ystod yr ymweliadau hyn, fe wnaethant arsylwi gwersi a siarad â disgyblion, athrawon a phenaethiaid. Fe wnaethant hefyd fonitro cynnydd disgyblion mewn cyfres o asesiadau llafar, darllen ac ysgrifennu.

## 6.1 Ysgolion Model 1

51 Mae gan ysgolion Model 1 lawer o gryfderau. Dyma'r model sy'n cynnig y model trochi hwyr llawn, sef cwricwlwm trochi Cymraeg o 90%. Mae ysgolion sy'n defnyddio'r model hwn wedi datblygu llawer o'r ffactorau y soniwyd amdanynt yn Johnson a Swain (1997)[6]. Mae'r rhain yn cynnwys y nodweddion canlynol:

- yr ail iaith yw cyfrwng y cyfarwyddyd;
- mae'r cwricwlwm trochi yn gyfochrog â'r cwricwlwm iaith gyntaf lleol;
- ceir cefnogaeth amlwg ar gyfer yr iaith gyntaf;
- mae'r rhaglen yn anelu at ddwyieithrwydd ychwanegol;
- mae amlygiad i'r ail iaith wedi'i gyfyngu i'r ystafell ddosbarth i raddau helaeth; ac
- mae disgyblion yn dechrau gyda lefelau tebyg (a chyfyngedig) o hyfedredd ail iaith.

52 Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ac weithiau rhagorol yn y ddau sector yn y prosiect. Mewn ysgolion Model 1, roedd yna gymhareb athro:disgybl is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion uwchradd. Roedd hyn yn galluogi'r ysgolion hyn i gynnig lefel uchel o gymorth a mwy o sylw unigol i ddisgyblion. Roedd yna barhad a dilyniant da hefyd rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd.

53 Mewn ysgolion Model 1, roedd gan athrawon uwchradd yn aml gyfrifoldeb penodol dros y rhaglen drochi ac roeddent yn addysgu yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Roedd hyn yn gweithio'n dda.

## 6.2 Ysgolion Model 2

54 Bu'r peilot trochi hwn yn heriol, oherwydd cyfyngiadau ysgolion cynradd gwledig. Ni allai rhai o'r ysgolion Model 2 hyn gynnig y cwricwlwm trochi Cymraeg llawn, oherwydd cyfyngiadau staff. Roedd ansawdd a dwysedd y profiadau iaith a roddwyd i ddisgyblion hefyd yn amrywio rhwng ysgolion. Y rheswm am hyn oedd

[6] Johnson R.K. and Swain M. (eds.) (1997) Immersion Education: International perspectives. New York: Gwasg Prifysgol Caergrawnt

digwyddiadau eraill, fel gwibdeithiau ysgol, diwrnodau chwaraeon ac ymweliadau sefydlu ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 â'u hysgolion uwchradd newydd. Wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd, nid oedd pob disgybl yn cael ystod debyg o brofiadau iaith.

55 Yn gyffredinol, ni wnaeth disgyblion gynnydd da wrth symud rhwng dau sector y prosiect. Collwyd cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau agosach rhwng sectorau cynradd ac uwchradd y prosiect. Nid oedd gan yr un athro unigol yn yr ysgol uwchradd Model 2 gyfrifoldeb penodol am y prosiect hwn, ac o ganlyniad, roedd diffyg perchnogaeth yn y sector uwchradd.

56 Roedd pryder sylweddol ymhlith yr athrawon cynradd a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun am barhad a dilyniant ar ôl trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

57 Er bod disgyblion yn gyffredinol yn cael profiadau dysgu o ansawdd uchel mewn ysgolion Model 2, nid yw'r model hwn yn cyflawni dyheadau a gweledigaeth Iaith Pawb ar gyfer y prosiect hwn oherwydd y diffyg cefnogaeth y mae'n ei gynnig ar gyfer parhad a dilyniant.

## 6.3 Ysgolion Model 3

58 Yn gyffredinol, gwnaeth disgyblion gynnydd da mewn ysgolion Model 3 yn ystod y rhan o'r prosiect a ddigwyddodd yn yr haf. Roeddent yn ddysgwyr brwdfrydig ac ymroddgar. Gwnaed cynnydd rhagorol gan ddisgyblion mewn un dosbarth llwybr carlam Blwyddyn 7. Fodd bynnag, pan gymysgwyd disgyblion Blwyddyn 6 o'r cwrs haf â disgyblion eraill nad oeddent wedi mynychu'r cwrs haf mewn dosbarthiadau eraill Blwyddyn 7, roedd eu cynnydd yn gyffredinol arafach. Yn 2005, dewisodd yr ysgol Model 3 yn Ne Cymru ddisgyblion i fynychu'r cwrs haf yn ôl eu canlyniadau asesiadau athro Blwyddyn 6. Rhoddwyd y disgyblion hyn mewn dosbarth dynodedig ym Mlwyddyn 7 a gwnaethant gynnydd da yn gyffredinol. Gwnaed cynnydd da gan ddisgyblion yn nosbarthiadau Blwyddyn 6 a 7 yn ysgol Model 3 yng Ngogledd Cymru.

59 Mae'r ysgol Model 3 yng Ngogledd Cymru yn cynnig ystod eang o weithgareddau ar y cwrs haf, gan gynnwys profiad preswyl a chynhyrchu CD-Rom cerddoriaeth rap Gymraeg. Roedd i'r cwrs hwn lawer o gryfderau, yn enwedig o ran datblygu a meithrin cysylltiadau agosach â rhieni a'i hysgol gynradd sy'n bwydo. Mae athrawon yn yr ysgol hon hefyd yn gwrando'n ffurfiol ar farn disgyblion am y cwrs ac yn gwneud newidiadau er gwell.

60 Defnyddiodd yr ysgol Model 3 yn Ne Cymru athrawon cynradd sy'n ddysgwyr Cymraeg ac nad ydynt yn arbenigwyr yn ystod prosiect peilot yr haf. Gwnaeth yr athrawon hyn gynnydd sylweddol wrth addysgu Cymraeg ac fe wnaethant ddefnyddio Cymraeg achlysurol yn fwy hyderus. Fodd bynnag, nid oeddent yn gallu ymestyn a herio medrau iaith disgyblion heb gymorth cydweithwyr arbenigol.

61 Nid oedd y ddwy ysgol uwchradd Model 3 yn gallu cynnig unrhyw bynciau yn Gymraeg, ac roedd hyn yn cyfyngu'r oriau cyswllt â'r iaith Gymraeg ac mae'n rhwystro disgyblion rhag gwneud cynnydd pellach.

62 Er bod disgyblion yn gyffredinol yn cael profiadau dysgu o ansawdd uchel mewn ysgolion Model 3, nid yw'r model hwn yn cyflawni dyheadau a gweledigaeth Iaith Pawb ar gyfer y prosiect hwn oherwydd y diffyg cymorth y mae'n ei gynnig ar gyfer parhad a dilyniant.

## 6.4 Ysgolion Model 4

63 Dim ond un ysgol a ddilynodd y model hwn. Mae gan y model hwn y potensial ar gyfer datblygu medrau ieithyddol disgyblion yn dda dros gyfnod hwy nag unrhyw un o'r modelau cyfredol eraill. Gallai disgyblion gael pedair blynedd o addysg drochi ar y model hwn gyda pharhad a dilyniant da rhwng dosbarthiadau.

64 Roedd yr AALl, yr ysgol a'r rhieni i gyd yn gefnogol i'r prosiect hwn. Roedd rhai rhieni hefyd yn dysgu Cymraeg i gefnogi dysgu eu plant, mewn dosbarth dynodedig Cymraeg i Oedolion.

65 Mae gan y model hwn y potensial i gyflawni dyheadau a gweledigaeth Iaith Pawb ar gyfer y prosiect hwn trwy gyflwyno parhad a chymorth ar gyfer dilyniant. Cynhelir medrau iaith Gymraeg datblygol disgyblion.

## 6.5 Ysgolion Model 5

66 Mae i brosiect peilot ysgol Model 5 lawer o gryfderau. Roedd y model trochi hwn yn defnyddio athrawon cynradd yn addysgu yn eu hystafelloedd dosbarth eu hunain. Roedd y model hwn yn cynnig y model trochi hwyr llawn yn ystod ail hanner tymor yr haf i ddisgyblion Blwyddyn 5 yn 2005 ac 20% o'r cwricwlwm yn Gymraeg i ddisgyblion Blwyddyn 6.

67 Roedd yr AALl, yr ysgol a'r rhieni i gyd yn gefnogol i'r prosiect hwn. Roedd athrawon yn cynnig profiadau o ansawdd uchel i ddisgyblion ar draws y cwricwlwm yn Gymraeg.

68 Cafodd disgyblion brofiadau dysgu o ansawdd uchel yn yr ysgol Model 5 hon ac mae gan y model hwn y potensial i gyflawni dyheadau a gweledigaeth Iaith Pawb ar gyfer y prosiect hwn trwy gynnig parhad a dilyniant wrth gynnal medrau iaith ym Mlwyddyn 6 a thu hwnt.

# 7 Materion sy'n ymddangos

## 7.1 Modelau Trochi Cymraeg

69 Dim ond ysgolion Model 1 oedd yn cynnig y model trochi hwyr llawn lle addysgir 90% o'r cwricwlwm yn Gymraeg. Roedd y model hwn, a gynigir mewn ysgolion uwchradd Cymraeg, yn gallu cynnig amrywiaeth lawn o weithgareddau yn Gymraeg. Roedd i'r model hwn y fantais hefyd fod mwy nag un athro'n addysgu'r elfen iaith Gymraeg ac y gallai athrawon pwnc eraill addysgu yn Gymraeg.

70 Ysgolion cynradd bach gwledig oedd llawer o ysgolion Model 2. Roedd yr ysgolion hyn yn ystyried bod y model trochi hwyr llawn (90% o'r cwricwlwm yn Gymraeg) yn hynod heriol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd ymyrraeth gwibdeithiau ysgol, diwrnodau chwaraeon, ymwelwyr sy'n siarad Saesneg ac ymweliadau sefydlu ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 â'u hysgolion uwchradd newydd. Roedd gan yr ysgolion hyn grwpiau blwyddyn cymysg yn yr un dosbarth hefyd; roedd gan un ysgol dri grŵp blwyddyn yn y dosbarth trochi. Roedd llawer o'r athrawon Blwyddyn 6 yn yr ysgolion cynradd hyn yn benaethiaid a oedd yn addysgu hefyd. Yn gyffredinol, roeddent yn teimlo bod angen cryn dipyn o amser paratoi ychwanegol ar y model trochi hwn i lwyddo.

71 Gallai ysgolion Model 3 gynnig rhai gweithgareddau yn Gymraeg ar y prosiectau peilot haf. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r staff uwchradd mewn adrannau eraill oedd yn siaradwyr Cymraeg ac roedd hyn yn ei gwneud yn anodd cynnig unrhyw bynciau yn Gymraeg ym Mlwyddyn 7.

72 Mae ysgolion Model 4 a 5 yn dal i fod yng nghyfnodau cynnar eu datblygiad. Maent yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion astudio Cymraeg am fwy o amser ar lefel gynradd nag unrhyw brosiect peilot arall. Mae arwyddion cynnar cadarnhaol iawn am gynnydd disgyblion yn y ddau fodel hyn.

73 Ar lefel uwchradd, dim ond ysgolion Model 1 sydd wedi gweithredu'r nod o addysgu 90% o'r cwricwlwm yn Gymraeg yn llwyddiannus. Gallai ysgolion Model 2 a 3 gynnig addysgu Cymraeg dwys yn ystod cyfnodau prosiect peilot yr haf yn unig. Roedd yr ysgolion hyn yn cynnig yr amser cwricwlwm arferol ar gyfer Cymraeg fel ail iaith ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7.

## 7.2 Gweithgareddau allgyrsiol

74 Ar ddiwedd prosiect yr haf, dychwelodd disgyblion i'w hysgolion cynradd eu hunain am bythefnos olaf tymor yr haf lle gallent gael cyswllt cyfyngedig iawn yn unig â'r Gymraeg. Dim ond disgyblion mewn ysgolion Model 4 a 5 a barhaodd â'r prosiect tan ddiwedd tymor yr haf.

75 Yn ystod gwyliau'r haf, roedd gan ddisgyblion ar y prosiectau peilot haf naill ai gyswllt cyfyngedig neu ddim cyswllt â'r Gymraeg ac roedd hyn yn rhwystro cynnydd ar ddechrau'r cyfnod uwchradd. Nid oes trefniadau ffurfiol i fynd i'r afael â'r mater hwn ar hyn o bryd.

76 Yn 2004, trefnodd tîm y prosiect gyfres tridiau o weithgareddau allgyrsiol ar gyfer disgyblion a fynychodd brosiectau Model 1, 2 a 3 ym mis Gorffennaf 2004. Trefnwyd y gweithgareddau hyn gyda chymorth yr Urdd, Mentrau Iaith a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd Ysgolion. Fodd bynnag, oherwydd ymrwymiadau gwyliau eraill, nid oedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu mynychu'r gweithgareddau hyn. Trefnodd y llyfrgell leol ystod o weithgareddau ar gyfer disgyblion o ysgolion Model 2, ond pedwar disgybl yn unig a fynychodd y gweithgaredd hwn.

77 Nid yw rhieni a disgyblion yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd y gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion barhau i ddatblygu eu medrau iaith. Dylai tîm y prosiect gynllunio gweithgareddau allgyrsiol yr haf fel rhan annatod o brosiectau trochi'r dyfodol yn hytrach na'u gwneud yn ddewisol.

## 7.3 Gallu ieithyddol y staff

78 Un o ragofynion rhaglen drochi lwyddiannus yw argaeledd staff rhugl. Roedd y rhan fwyaf o staff y prosiectau peilot haf yn athrawon Cymraeg rhugl. Fodd bynnag, roedd rhai athrawon mewn un ysgol Model 3 yn ddysgwyr Cymraeg. Roedd yr athrawon hyn yn ddysgwyr brwdfrydig, ond nid oeddent ar lefel i allu ymestyn medrau iaith eu disgyblion. Roeddent yn gweithio fel athrawon tîm ar rota gydag athro arbenigol o'r ysgol uwchradd, a chyda staff ymgynghorol o'r AALl. Er y gwnaeth medrau'r athrawon hyn wella yn ystod y prosiect peilot, roeddent yn parhau i ddibynnu ar gymorth gan athrawon eraill ac nid oeddent yn gallu ymestyn medrau llafar disgyblion. Wrth iddynt drosglwyddo i ysgolion uwchradd, roedd athrawon Cymraeg cymwys yn addysgu'r disgyblion hyn ym Mlwyddyn 7. Fodd bynnag, nid yw pob athro uwchradd yn gymwys i gyflwyno cwricwlwm Cymraeg ac oni bai bod y model trochi yn parhau i'r cyfnod uwchradd, gellir colli'r cynnydd a wnaed trwy drochi hwyr.

## 7.4 Cymorth AALlau

79 Cafodd pob ysgol beilot gymorth da gan eu hawdurdodau addysg lleol. Cefnogodd yr AALlau y prosiectau peilot hyn yn ariannol mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys darparu staff ychwanegol, cludiant a gwasanaethau cynghori Cymraeg ychwanegol. Ni fyddai'r prosiectau peilot hyn wedi bod mor llwyddiannus ag yr oeddent heb gymorth ariannol ychwanegol yr AALlau.

80 Roedd ysgolion Model 1 a 3 yn dibynnu ar gludo disgyblion o'u hysgolion cynradd i'w hysgol uwchradd ar gyfer y rhaglen drochi. Mewn un ysgol Model 3 yn Ne Cymru, rhoddwyd athrawon llanw ychwanegol i'r ysgolion cynradd i ryddhau'r athro dosbarth arferol i fynychu'r prosiect trochi yn yr ysgol uwchradd. Roedd rôl yr athrawon ymgynghorol yn yr ysgol Model 3 hon hefyd yn hanfodol wrth ddatblygu'r cwrs trochi a'r sesiynau addysgu yn ystod yr wythnos.

81 Mewn un ysgol Model 3 yng Ngogledd Cymru, roedd yn rhaid i ddisgyblion o un ysgol gynradd yn y clwstwr ddibynnu ar athrawon uwchradd i'w cludo o'u hysgol gynradd i wersi Cymraeg yn yr ysgol uwchradd yn ystod prosiect peilot yr haf. Roedd hyn yn rhoi gormod o bwysau ychwanegol ar athrawon uwchradd ar ben eu dyletswyddau

addysgu arferol. Mae angen cynllunio gofynion cludiant yn gynharach ar gyfer disgyblion ar gyrsiau yn y dyfodol.

## 7.5 Adnoddau

82 Ychydig iawn o ddeunyddiau cyhoeddedig addas oedd ar gael ac mae yna brinder o hyd. Fodd bynnag, rhoddwyd pedwar llyfryn cwrs Cymraeg newydd ar brawf yn llwyddiannus yn ystod y prosiect. Comisiynwyd awdur i ysgrifennu dau gwrs Cymraeg newydd yn seiliedig ar ardaloedd yr Wyddgrug, Rhuthun a Llanelwy, ar gyfer prosiectau Model 1 a 2. Ysgrifennodd athro Cymraeg ymgynghorol profiadol y pedwerydd cwrs ar gyfer prosiect Model 3.

83 Mae pob un o'r cyrsiau hyn wedi'u cynllunio'n dda ac maent yn cynnig cydbwysedd da o ran gweithgareddau llafar, darllen ac ysgrifennu. Mae'r llyfrynnau hyn hefyd yn cynnig cyflwyniad da i ddisgyblion i ddiwylliant Cymreig eu hardal. Roedd athrawon ym mhrosiectau Model 1 a 2 yn gadarnhaol ynghylch priodoldeb yr iaith a'r cynnwys, ac ynghylch y ffaith bod y llyfrynnau'n seiliedig ar eu hardal. Roedd disgyblion ar y prosiectau hyn hefyd yn gadarnhaol ynglŷn â'r llyfrynnau hyn.

84 Fodd bynnag, roedd prinder deunydd darllen Cymraeg addas yn cynnig her i athrawon o ran dod o hyd i ddeunyddiau a oedd yn briodol i anghenion ieithyddol disgyblion ar y prosiectau peilot hyn.

## 7.6 Agweddau disgyblion

85 Roedd disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol ar bob un o'r cyrsiau. Mewn gwersi, roeddent wedi ymrwymo i'w gwaith ac yn gwneud defnydd cynhyrchiol o amser gwersi. Roeddent yn awyddus yn gyffredinol i gynnig ymatebion mewn sefyllfaoedd dosbarth cyfan ac i gymryd rhan mewn gwaith unigol neu waith grŵp. Roedd cymhelliant disgyblion yn amlwg hyd yn oed yn yr ychydig wersi pan oedd y gweithgareddau'n llai diddorol.

86 Pan gyfwelwyd disgyblion ar ddiwedd y cwrs haf yn 2004 a 2005, roeddent yn gadarnhaol ynglŷn â'r cwrs a'i ganlyniadau. Roeddent yn mwynhau'r gweithgareddau ac yn teimlo bod eu Cymraeg wedi gwella o ganlyniad i'r cwrs. Roedd gan bob un farn gadarnhaol am ddysgu Cymraeg ac roeddent yn awyddus i wella mwy. Dywedodd athrawon fod y farn gadarnhaol hon hefyd yn adlewyrchu barn rhieni.

87 Gofynnodd staff mewn un ysgol Model 3 yng Ngogledd Cymru yn systematig i ddisgyblion am eu hargraffiadau o'r cwrs. Roedd canlyniadau'r arolwg hwn yn gadarnhaol iawn ac yn helpu staff i gynllunio cyrsiau yn y dyfodol.

## 7.7 Presenoldeb disgyblion

88 Roedd cyfraddau presenoldeb disgyblion ar brosiectau peilot haf 2004 a 2005 yn dda iawn yn gyffredinol, ac roedd disgyblion yn awyddus i gymryd rhan yn y prosiect. Dim ond un disgybl ar brosiect peilot haf 2005 nad oedd yn gallu cwblhau'r prosiect peilot oherwydd cyflwr meddygol. Fodd bynnag, roedd ymyrraeth dathliadau diwedd tymor, gwibdeithiau ysgol a diwrnodau sefydlu yn effeithio ar bresenoldeb ar adegau.

89 Aeth y rhan fwyaf o'r disgyblion cynradd a fynychodd y cyrsiau haf yn yr ysgol uwchradd leol ymlaen i'r ysgol honno yn y mis Medi canlynol. Fodd bynnag, ym mhrosiect peilot Model 3, trosglwyddwyd dros draean o ddisgyblion i ysgol uwchradd gyfagos. Yna, roedd yn rhaid i'r disgyblion hyn ddilyn y cynllun gwaith Cymraeg ail iaith Blwyddyn 7 arferol. Ni wnaeth ailadrodd llawer o'r gwaith a wnaed eisoes yn ystod prosiect peilot yr haf ymestyn eu cynnydd.

## 7.8 Parhad a dilyniant mewn ysgolion uwchradd

90 Mewn ysgolion Model 1 a 3, mynychodd disgyblion y prosiect peilot yn yr ysgol uwchradd. Addasodd yr ysgolion uwchradd hyn eu hamserlenni'n llwyddiannus i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda. Rhoddwyd rhagflas i ddisgyblion o fywyd yn yr ysgol uwchradd cyn iddynt drosglwyddo yn ystod tymor yr hydref. O ganlyniad, yn gyffredinol, ymgartrefodd y disgyblion cynradd hyn yn gyflym i arferion yr ysgol uwchradd. Ar ddechrau tymor yr hydref, roeddent yn llawer mwy hyderus na disgyblion eraill a oedd yn cyrraedd yr ysgol am y tro cyntaf.

91 Er i swyddogion y prosiect wneud ysgolion yn ymwybodol o oblygiadau'r prosiect peilot, nid oedd pob un o'r partneriaid yn deall y goblygiadau llawn ar gyfer sicrhau parhad a dilyniant rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd. Mae yna heriau sylweddol wrth sicrhau'r math o gynllunio strategol tymor hir ar lefelau ysgol uwchradd ac AALl i gyflwyno'r gallu addysgu i gynnal dysgu yn Gymraeg ar draws y cwricwlwm.

92 O ganlyniad i anawsterau ysgolion unigol â staffio ac amserlenni, dim ond ysgolion Model 1 sy'n llwyddo i gynnig rhaglen drochi lawn ym Mlwyddyn 7, lle gall disgyblion astudio ystod o bynciau yn Gymraeg. Gall ysgolion uwchradd Model 2 a 3 gynnig cyfle cyfyngedig yn unig i ddisgyblion ymarfer eu medrau ieithyddol y tu allan i wersi yn Gymraeg fel pwnc cwricwlwm ar wahân.

## 8 Sylwadau i gloi

93 Mae llwyddo i ddysgu Cymraeg ar y prosiectau peilot hyn yn dibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys personoliaeth a chymhelliant myfyrwyr, disgwyliadau athrawon, cymorth rhieni, arweinyddiaeth y prosiectau peilot a chymorth uwch reolwyr yn yr ysgol, ar lefelau awdurdod lleol a llywodraeth genedlaethol. Mae'r nodweddion sy'n gyffredin i lwyddiant mewn rhaglenni trochi Cymraeg fel a ganlyn:

- athrawon rhugl sy'n fodelau da ar gyfer yr iaith darged ac sy'n gwneud dysgu yn hwyl;
- cyflymder ac amrywiaeth yn yr addysgu a'r dysgu;
- sicrhau parhad a chynnydd mewn dysgu yn Gymraeg ar draws y cwricwlwm ar lefel uwchradd;
- cymorth da wedi'i dargedu i ysgolion gan awdurdodau addysg lleol;
- cyswllt da rhwng pob un o'r asiantaethau; a
- chysylltiadau agos rhwng ysgolion a phartneriaid.

95 Mae'r prosiectau peilot hyn eisoes yn dangos arwyddion o gael effaith ar ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith mewn ystyr ehangach.

96 Mae yna fanteision amlwg yn y model o gyflwyno cwrs tymor yr haf ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 yn yr ysgol uwchradd gydag athrawon dynodedig nad oes ganddynt unrhyw gyfrifoldebau eraill. Mae lefelau cynnydd disgyblion yn ystod cwrs yr haf yn uwch nag yn y model a drefnwyd mewn ysgolion cynradd unigol. Cyflawnir llawer ym model tymor yr haf yr ysgol uwchradd o ran parhad a dilyniant wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

97 Mae angen mwy o amser ar athrawon dosbarth ar y rhaglen mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i baratoi deunyddiau ac adnoddau Cymraeg priodol. Mae angen datblygiad staff parhaus sydd wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt hefyd.

98 Mae angen cyfranogiad gweithredol ac ymroddiad tymor hir pob un o'r rhanddeiliaid i sicrhau llwyddiant parhaus disgyblion ar y rhaglenni trochi hwyr ac addysgu iaith dwys hyn.

Mantais gyfyngedig sydd i gynnig cyrsiau trochi neu gyrsiau dwys i ddisgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd na all gefnogi parhad yn y ddarpariaeth er mwyn adeiladu ar ddatblygu medrau dwyieithog. Oni bai y gellir cynnal cwricwlwm dwyieithog, ni all y math hon o raglen drochi gynnig gwerth da am arian.